# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

## Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Fawrth, 5 Mai 2026 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Festri Pencaenewydd, a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).

1. **Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau.**
   **Yn bresennol** y Cynghorwyr Anwen Jones (Cadeirydd), Rhys Tudur, Delyth Parry, Sian Angharad Parry, Dewi Thomas, Tegid Jones, Aled Evans, Angela Williams, Dylan Thomas a'r Clerc.

   **Ymddiheuriadau** – Cynghorydd Aled Davies, Miriam Williams, Angharad Llwyd-Jones, Euros Jones a Gareth Davies.

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 1 Mai 2025.**

3. Materion yn codi o'r cofnodion. **Dim**

4. **Adroddiad ar waith y flwyddyn rhwng 1af o Ebrill, 2025 i'r 31ain o Fawrth, 2026 gan y Cadeirydd**.

Ym mis Mehefin 2025, fe groesawyd y Cynghorydd Angharad Llwyd-Jones, yn gynghorydd dros Ward Llanarmon.
Fe wnaeth Cynghorydd Darren Morley, Ward Llanystumdwy ymddiswyddo fis Tachwedd 2025.

Dyma rai o'r prif bethau a wnaed yn ystod y flwyddyn:-
- Gofyn am ail godi'r 'stand' carreg dal llefrith a dynnwyd i lawr wrth adeiladu stad dai newydd Cae'r Felin, Llanystumdwy. Cafwyd hefyd gyfle i fathu enw newydd ar y stad, gyda chymorth Cynghorydd Miriam Williams yn trafod hefo plant Ysgol Llanystumdwy
- Gwnaeth Cyngor Gwynedd osod bin halen yng Nghaerffynnon, Llanystumdwy.
- Ail dario darn o'r lon heibio Tyddyn Heilyn, Chwilog ar ol blynyddoedd o holi am wneud.
- Gwrthod cais cynllunio i gael 25 o dai yn Bryn Hyfryd, Chwilog.
- Cael arafu traffig ar y lon ac ail lenwi'r 'twmpathau arafu cyflymder'drwy Chwilog.
- Gwireddwyd y llwybr cerdded rhwng Afonwen a Chwilog, ar ol blynyddoedd maith o gwynion, gyda chymorth y Cynghorydd Rhys Tudur.

Rydym yn parhau i gyfarfod wyneb yn wyneb, gyda'r opsiwn o fod yn rhithiol bob tro drwy gymorth y Cynghorwyr Aled Davies a Tegid.

Fe wnaed yr holl waith arferol o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio, gwaith cynnal a chadw ar y llwybrau a'r cae chwarae.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc a phawb am ei gwaith a'i cymorth tra bu yn Gadeirydd.

5. **<u>Adroddiad Ariannol am y flwyddyn 1af o Ebrill, 2025 i'r 31ain o Fawrth, 2026 gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol</u>**.

Dechrau Ebrill 2025 roedd cyfanswm o £16,214.77 gennym yn y 2 cyfrif, sef £11,443.41 yn y cyfrif cyfredol a £4,771.36 mewn cyfrif cadw.
Erbyn diwedd Mawrth 2026 roedd y cyfanswm yn £14,708.78 yn y 2 cyfrif.
Roedd y praesept yn £20,500.00 llynedd.

- Derbyniwyd ad-daliad TAW o £563.16 llynedd, ac eleni bydd y swm yn £1,414.14.
- Derbyniwyd ad-daliad o £417.80 gan Cyngor Gwynedd am waith ar y llwybrau, sef yr un ffigwr a'r flwyddyn cynt.
- Derbyniwyd £5,514.30 gan gwmni Lightsource a oedd yn £237.63 yn fwy na'r flwyddyn cynt.
- Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd arian grant gan Cronfa Gwynedd Ni, sef £4,799.00 tuag at gynnal Cyngerdd ym Mhencaenewydd, creu Hysbysfwrdd Beirdd ym Mynwent Chwilog, a chreu arwyddion llechi o enwau pontydd.

Derbyniwyd 18 cais am gymorth ariannol, sef 5 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.
Talwyd £8,361.81 o daliadau o'r cyfrif cyfredol tuag at geisiadau am gymorth ariannol, a oedd yn cynnwys arian Lightsource. Roedd hyn y cynnwys talu am gyswllt Wifi, Neuadd Chwilog, mynwentydd lleol, cylch meithrin, clybiau, mudiadau lleol, ac Eisteddfod Chwilog.
Yn ogystal a hyn talwyd am farbio'r llwybrau, cadw'r cae chwarae yn daclus, glanhau'r llochesi bws, a talwyd £2,000.00 tuag at gostau gadw'r toiledau yn agored yn Llanystumdwy.
Y bwriad yw parhau hefo'r drefn o anfon y gyllideb/cyfrifon at bob cynghorydd bob mis cyn y cyfarfod i gadw golwg ar y gwariant drwy gydol y flwyddyn.
Diolchodd y Clerc i'r Cadeirydd a'r Cynghorwyr i gyd am ei cymorth yn ystod y flwyddyn i hwyluso ei gwaith.

6. **<u>Cyfle i'r trethdalwyr ofyn cwestiynau</u>** – neb y bresennol.
7. **<u>Ethol swyddogion am flwyddyn rhwng mis Mai 2026 at y cyfarfod blynyddol mis Mai 2027</u>**:

a) **Cadeirydd – cynnigiwyd gofyn wrth y Cynghorydd Euros Jones, ond oherwydd nad oedd yn bresennol gofynwyd i'r Clerc ofyn wrtho** (bydd angen trefnu i lofnodi datgan derbyn swydd yn ein cyfarfod nesaf).

b) **Is gadeirydd – oherwydd mai Cynghorydd o Ward Llanystumdwy oedd i fod i gael ei dewis, cynnigiwyd gofyn wrth y Cynghorydd Gareth Davies, ond oherwydd nad oedd yn bresennol, gofynnwyd i'r Clerc ofyn wrtho** (bydd angen trefnu i lofnodi datgan derbyn swydd yn en cyfarfod nesaf).

c) **<u>Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol</u>** - aros yr un fath dim newid.

ch) **<u>Elusen William Ellis</u>**, Llanystumdwy - Cynghorwyr Ward Llanystumdwy i gyd.

8. Cadarnhau nad oes angen newid unrhyw aelodaeth o bwyllgorau'r Cyngor.

9. Dewis cynrychiolydd i:-

a) **<u>Pwyllgor Rhanbarth Un Llais Cymru</u>** – roedd Un Llais Cymru wedi awgrymu rhoi gwadd i bob cynghorydd oherwydd nad oedd llawer yn mynychu'r cyfarfodydd bob 4 mis, felly cytuno i wneud hyn.

b) **Grwp Mynediad Dwyfor**- Cynghorydd Dylan Thomas.

10. **Polisiau** – mae pob polisi ar wefan y Cyngor, ac yn cael ei ail mabwysiadu yn flynyddol yn ystod y cyfarfod blynyddol, onibai fod angen gwneud newidiadau yn ystod y flwyddyn. Nid oedd angen gwneud newidiadau.

Bydd angen creu Rheoliadau Ariannol newydd eleni, a penderfynwyd trefnu cyfarfod am 6:30 o flaen y prif gyfarfod mis Mehefin 2026, ar gyfer yr aelodau sydd ar y Pwyllgor Rheolau Sefydlog a Pholisiau.

## CYFARFOD ARFEROL Y CYNGOR (am 7:20 yr hwyr)

## Rhaglen waith y Cyngor – nos Fawrth, 5ed o Fai 2026 tua 7:20 y.h. yn Festri Pencaenewydd, a drwy Zoom.

1. **Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau – gweler uchod.**

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 2 Ebrill 2026 - derbyn.**

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Ebrill 2026.**

4. **Datgan buddiant personol –**
**Cynghorydd Anwen Jones – Cais Cynllunio (10 b) Tafarn y Plu-ei mab ar bwyllgor rheoli y Plu.**
**Cynghorydd Aled Lloyd Evans - Cais Cynllunio (10 b) Tafarn y Plu-aelod o bwyllgor rheoli y Plu.**
**Cynghorydd Tegid Jones - Cais Cynllunio (10 b) Tafarn y Plu – aelod o bwyllgor rheoli y Plu.**

5. **Sedd newydd yn Ward Llanystumdwy** manylion cyfethol wedi cael ei rhoi ar y wefan a hysbysfwrdd Llanystumdwy hefo dyddiad cau 31.03.2026 – trafodwyd enwau posib.

6. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

Rhaglen waith mis Mai 2026.

| Rhif y Ffordd | Lleoliad y Gwaith | Disgrifiad o'r Gwaith |
|---|---|---|
| Dosbarth III | Lon Sardis ger Pen Sarn | Atgyweirio ymyl y ffordd |

7. **Ceisiadau cynllunio sydd angen penderfyniad**

a) **Gaerwen, Ynys, Cricieth C26/0217/41/YA: -** Cais rhybudd o flaen llaw i adeiladu sied amaethyddol ar gyfer cadw porthiant a pheiriannau. **Cefnogi**.

b) **Tafarn y Plu, Llanystumdwy C26/0226/41/LL** - newidiadau i'r cais a ganiatawyd o dan cyfeirnod C22/0027/41/LL i gynnwys newid maint a nifer ffenestri, ymestyn rhan o'r estyniad i greu toiled hygyrch ac ymestyn y teras ar pen yr estyniad, gosod paneli solar, ail-lleoli'r mynediad i'r fflat a gosod ffliw newydd. **Cefnogi**.

c) **Fferm Bont Fechan, Llanystumdwy C26/0252/41/DT**- cais i ddymchwel y modurdy presennol a chodi adeilad deulawr fel atodiad preswyl yn gysylltiedig i'r prif eiddo. **Gwrthod – ar sail gorddatblygiad yng nghefn gwlad, a'i fod y tu allan i'r ffin ddatblygu.**

**Materion yn y gymuned**.

8. **Llanystumdwy**
9. **Chwilog**

a) **Stad dai Cae Brynhyfryd** – Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd wedi gwrthod y cais gyda 8 o blaid gwrthod y cais a 4 yn erbyn. Bydd penderfyniad pellach yn cael ei gyfeirio i 'gyfnod cnoi cil', cyn ei gadarnhau yn derfynol. **Gofynwyd i'r Clerc anfon ebost at y Cynghorydd Paul Rowlinson, Cyngor Gwynedd yn gofyn, "deallir bod oddeutu 2,200 o enwau ar restr aros am dai yng Ngwynedd ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus i gael gwybod sut y dosrannir yr 2,200 o ymgeiswyr yma yn ôl eu côd post."**

b) **Cae Bodlondeb** – twmpath cyflymder yn cael ei osod gan Beech Developments yn cychwyn ar y 25/05/2026 am ddau ddiwrnod. Bydd y weithred yn cynnwys tynnu'r glustog sydd wedi ei sefydlu yn barod ac yna gosod twmpath at hyn lled gyfan y ffordd ychydig ar ôl y gyffordd i'r stad (gyferbyn arwydd y datblygiad). **Derbyn**.

10. **Rhoslan/Ynys**
11. **Pencaenewydd/Sardis**
12. **Llangybi**

13. **Materion Ariannol**

**Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.**
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 30.04.2026. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. **Derbyn**.

14. **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** – roedd y Clerc wedi gwneud y datganiadau cyfrifyddu o flaen y cyfarfod, fel y gellir ei gymeradwyo gan y Cyngor a'i llofnodi. Fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd Anwen Jones, wedyn gall y Clerc anfon y manylion at yr archwilwyr mewnol.

15. **Gwaith ar y llwybrau, Mai 2026 ymlaen**.

a. Llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
b. Llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
c. Llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
ch.Llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
dd.Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.
e. Cadw safle bedd D. Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor.
f. Maenywern, Llanystumdwy – dim angen gwneud hwn tan flwyddyn nesaf sef ger y bont ac ar hyd y wal i fyny tuag at y Bedd.
***Hysbyseb wedi cael ei roi ar y wefan, a'r Ffynnon i gael prisiau, hefo dyddiad cau 30.04.2026, er mwyn ei trafod yn y cyfarfod ar y 5ed o Fai 2026.***
***Cytunwyd i roi y gwaith uchod am y flwyddyn, sef a)b)c)ch)d)a dd) i Mr Rhys Jones ac e) i Mr Gareth Jones.***

ff. **Cytundeb torri Cae Chwarae Llangybi**.

***Cytunwyd i roi y gwaith i Mr Idris Jones a'i fab am y flwyddyn.***

g. **Glanhau 9 lloches bws** – mae cytundeb eisioes yn bodoli hyd at 31.03.2027 hefo cwmni Criccieth Cleaning.

16. **Praesept** – wedi derbyn yr hanner cyntaf, sef £10,500.00 ar 29.04.2026.

17. **Cyflog Clerc** – Ar sail gohebiaeth a dderbyniwyd gan NALC drwy Un Llais Cymru a SLCC ar 24.07.2025, derbyniwyd tabl graddfeydd cyflog ar gyfer clercod. Ar hyn o bryd mae'r tabl yma dal i fod yn gyfredol. Mae cyflog y Clerc yn cychwyn ar rif 22 – 28, o'r raddfa cenedlaethol SCP.
Roedd pawb o'r farn fod perfformiad gwaith y Clerc yn foddhaol, felly bydd cyflog y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol o Ebrill 1af, 2026 ymlaen yn symud i fyny ar y raddfa cyflog, o **pwynt 25 i pwynt 26, sef o £18.85 i £19.32 yr awr, x 35 awr y mis = £676.20**.
Mae cyflog y Clerc yn ol y cytundeb cyflogaeth yn datgan:-

1. **"Cyflog**
2. "Ar yr amod fod eich perfformiad yn foddhaol, byddwch yn symud yn awtomatig drwy'r raddfa gyflog trwy godiadau blynyddol hyd nes ichi gyrraedd uchafbwynt y raddfa. Bydd eich codiad cyflog cyntaf yn daladwy ar 1 Ebrill 2019 ac wedi hynny ar 1af Ebrill bob blwyddyn hyd nes ichi gyrraedd uchafbwynt y raddfa. Gall y Cyngor ddal codiad cyflog yn ôl os bernir fod eich perfformiad yn is na'r disgwyl, yn dilyn adolygiad blynyddol."
3. "Yn dilyn cyfarfod Pwyllgor Amodau Gwaith 22.11.2023 cytunwyd i gynyddu cyflog y **Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol o'r 01.01.2024 i bwynt 23, sef £16.67 yr awr sef ar raddfa LC2 cenedlaethol SPC rhwng pwynt 22 – 28**. Bydd yn codi bob Ebrill wedyn hyd nes cyrraedd uchafbwynt y raddfa,cyn belled a bod y performiad gwaith yn foddhaol".

18. **Cronfa Cefnogi Cynghorau gan Gwynedd Ni** – yn dilyn y cyfarfod diwethaf cytunwyd ar y ddau syniad isod:-

**a) Offer 'tylluan' sain/ a sgrin deledu** –cynnig prynu offer ar gyfer Neuadd Llanystumdwy a Neuadd Chwilog. Byddai hyn yn galluogi cynnig cyswllt technoleg/ sain gwell ar gyfer y gwahanol fudiadau/cyfarfodydd sydd yn defnyddio'r neuaddau.

- Derbyniwyd ateb gan Alys Rees Jones yn dweud, "fod y syniad yma'n gymwys ond bydd angen sicrhau bod yr asedau (sain a sgrin deledu) yn nwylo'r Neuadd yn barhaol a ddim yn cael eu defnyddio fel offer symudol.
- Y Clerc eisioes wedi cysylltu hefo Pwyllgor y ddwy Neuadd ac wedi derbyn ateb ganddynt yn diolch a byddai derbyn yr offer yn dderbyniol iawn, ac o fudd i wahanol aelodau o'r cyhoedd fel Merched y Wawr.

**b) Cae chwarae Chwilog** – cysylltu hefo Llifon Foulkes, Cyngor Gwynedd i ofyn am ganiatâd i ni holi am bris er mwyn cael **gwneud grisiau neu ramp i fynd at y llecyn chwarae o fewn y cae chwarae ei hun**. Mae llethr serth yn mynd i lawr at yr offer chwarae sydd yno, a byddai hyn o gymorth i fynd at y cae chwarae. Mae rhieni yn y pentref wedi bod yn galw am wellianau ers tro.

- Cadarnhaodd Alys fod y syniad yma hefyd yn gymwys, gan mai Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am y cae chwarae, a bod angen atodi cadarnhad eu bod yn hapus i ni ymgymryd a'r gwaith yma gyda'r cais. Gall hyn fod ar ffurf e-bost neu lythyr gefnogol.
- Y Clerc wedi cysylltu hefo Mr Llifon Foulkes Cyngor Gwynedd ac wedi derbyn ebost yn dweud "Rydym yn gefnogol iawn o'ch cais ac yn hapus i rhoi caniatâd i chi ar gyfer hyn ar yr amod bod unrhyw gynlluniau yn cael ei cymeradwyo ganddom ni fel Gwasanaeth yn y lle cyntaf".

Bwriad y gronfa yw cefnogi prosiectau cyfalaf sy'n gwella gofodau cymunedol, mannau cyhoeddus ac yn cyfrannu at adfywio lleol, ac mae'r dyddiad cau 15.06.2026.
Bydd angen trefnu i gael prisiau rwan, a dechrau gwneud y cais am arian.
Cyfanswm y cyllid eleni yw **£7,000.00.**

19. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw** | Rheswm | Pris £ | TAW £ | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| ICO | 'InformationCommissioner's Office - Deddf Diogelu Gwybodaeth £52.00 ond gostyngiad o £5.00 am ei fod yn cael ei dalu drwy ddebyd uniongyrchol bob blwyddyn | **48.00** | | **48.00** | **48.00** |
| Zurich Insurance | Yswiriant am flwyddyn o'r 01.06.2026 ymlaen. Clerc wedi gofyn wrthynt ychwanegu'r hysbysfwrdd beirdd at y polisi | **782.89** | | **782.89** | **782.89** |
| *Delwedd **** | *Costau lletya/cynhaliaeth gwefan blynyddol (010)* | ***467.12*** | ***93.42*** | ***560.54*** | ***560.54*** |

20. Cyflog mis Ebrill 2026 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm £ | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Ebrill 2026<br>35 awr y mis x £19.32 = **£676.20** a | £676.20 Llai treth- £135.40 = **£540.80** | **540.80** | **540.80** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Ebrill 2026<br>£677.00 x 20% = £135.40 | **£135.40** | **135.40** | **135.40** |
| Costau swyddfa Clerc Ebrill 2026 | **26.00** | **26.00** | **26.00** |

21. **Materion hwyr**

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar nos Iau 04.06.2026 yn Festri Pencaenewydd a drwy Zoom.

22. **Bil Delwedd** – gweler manylion (19***) uchod a caniatawyd i'w dalu yn dilyn y cyfarfod.
23. **Cae chwarae Chwilog** – derbyniwyd llythyr gan Mrs Delyth Davies, Gweithiwr Cymunedol a Chenhadol yn holi am gael byrddau picnic a meinciau yn y cae ar gyfer gwahanol fudiadau a theuluoedd. Gofynwyd am osod arwydd ar y ffordd fawr yn cyfeirio at y lle hefyd.
**Cytunwyd i wrthod y cais eleni, oherwydd ein bod yn cynnal cyfarfod cyllid fis Hydref/Tachwedd bob blwyddyn, i drefnu gwariant ar gyfer y flwyddyn ddilynol, felly yn anffodus eleni nid oes cyllideb ar gael ar gyfer ystyried prynu byrddau picnic a meinciau yn y cae chwarae.**

Y Clerc hefyd am ei hysbysu mai Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am y cae chwarae yn Chwilog, sef yr holl gostau sydd yn ymwneud â'r lle, torri gwair, yswiriant a gofalu am yr offer chwarae sydd yno. Eglurwyd hefyd fod y Cynghorydd Rhys Tudur wedi bod yn gwneud ymholiadau'n ddiweddar hefo Mr Llifon Foukes, Cyngor Gwynedd i weld os oes modd cael mwy o offer chwarae newydd yno.

Mae wedi cael gwybod fod bwriad gan Cyngor Gwynedd i wneud gwellianau yno, ond pan ystyriwyd arian drwy Gynllun SPF ddechrau'r flwyddyn, roedd ardaloedd eraill mewn mwy o angen adeg honno oherwydd bod rhai o'i offer wedi dod i ddiwedd ei hoes.

Maent hefyd wedi bod yn trafod y llwybr cul sydd yn arwain o dai Maes Myrddin i gyfeiriad y giat sydd yn mynd i'r cae chwarae, oherwydd ei bod yn anodd cael peiriannau i wneud unrhyw waith yno, a chwmni Adra yw perchennog rhan o'r tir sydd ger y llwybr. Mae Adran Eiddo'r Cyngor mewn trafodaeth ynglyn â hyn hefo Adra.

Eglurwyd hefyd fod Cwmni Beech Homes (Cae Bodlondeb) yn bwriadu rhoi swm o tua £10,000.00 i Cyngor Gwynedd i wario i gael offer yn y cae chwarae.

24. **Canclwm** – o dan Pont Llanystumdwy –Clerc i ofyn wrth Mr Richard Hubbard fynd yno i'w drin.

25. **Ty'n Ffridd, Ty'n Lon, Chwilog** – Clerc eisioes wedi anfon ebost at Cyngor Gwynedd, yn gofyn am ddiweddariad gan yr Adran Gorfodaeth/Cynllunio, ond heb gael ymateb.

- **Ty'n Ffridd, Chwilog** sefyllfa parthed y carafannau sydd wedi ei gosod heb ganiatad y tu ol i Ty'n Ffridd, Chwilog yn dilyn dyfarniad yr apêl.
- **Ty'n Lôn, Chwilog** gan fod mynedfa i'r cae carafannau yn y lle anghywir.
- **Tir ger Mynwent Llanystumdwy** - safle tir ar yr ochr dde wrth edrych ar y fynedfa i Fynwent Llanystumdwy. Teulu Carafannau Evans wedi prynu'r safle rai blynyddoedd yn ol, ac wedi rhoi llawr caled yno i gadw offer/peiriannau. Lon bach yn mynd i lawr o'r lon fawr i'r cefn o'r golwg.